


# Ymgynghoriad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu CCC

Diwylliant, tlodi ac allgáu  
cymdeithasol  
14 Rhagfyr 2018



CLILC • WLGA

## Cyflwyniad

1. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn cynrychioli'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, ac mae'r 3 awdurdod parc cenedlaethol a'r tri awdurdod tân ac achub yn aelodau cyswllt.
2. Mae'n ceisio cynrychioli awdurdodau lleol o fewn fframwaith polisi datblygol sy'n bodloni blaenoriaethau allweddol ein haelodau ac yn darparu ystod eang o wasanaethau sy'n ychwanegu gwerth at Lywodraeth Leol Cymru a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.
3. Croesawn y cyfle i ymateb i ymchwiliad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu i'r ffordd gall cyrff a ariennir yn gyhoeddus ddefnyddio diwylliant i fynd i'r afael â thlodi ac amgáu cymdeithasol yng Nghymru.

## Ymateb i gwestiynau

### **Pa mor effeithiol mae Llywodraeth Cymru wedi bod o ran gwella cyfranogiad a mynediad at ddiwylliant i bobl mewn tlodi?**

4. Er mwyn ateb y cwestiwn hwn, mae angen ceisio diffinio beth mae'r term 'diwylliant' yn ei olygu. Y diffiniad a ddefnyddiwyd yn adroddiad y Farwnes Andrews ar Ddiwylliant a Thlodi (gweler [Llywodraeth Cymru | Diwylliant a Thlodi: Harneisio pŵer y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth i hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru <http://gov.wales/docs/drah/publications/140313-culture-and-poverty-cy.pdf>](http://gov.wales/docs/drah/publications/140313-culture-and-poverty-cy.pdf)) oedd: "nid dim ond y celfyddydau, ond mae hefyd yn cynnwys treftadaeth a'r amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys cyfraniad amgueddfeydd, llyfrgelloedd a'r cyfryngau".
5. Mae diffiniadau eraill yn awgrymu ei fod yn cynnwys "*iaith, crefydd, coginio, arferion cymdeithasol, cerddoriaeth a chelfyddydau*" ond yn ychwanegu ei bod hi'n bwysig cydnabod "*nad yw diwylliant bellach yn sefydlog, os buodd erioed. I bob pwrpas, mae'n gyfnewidiol ac yn symud yn gyson*" (<https://www.livescience.com/21478-what-is-culture-definition-of-culture.html>).
6. Mae diddordebau a safbwyntiau yn wahanol, ymysg unigolion a thros amser. Mae'r farn bod rhywbeth 'diwylliannol' yn bleserus neu'n ysgogol yn oddrychol ac yn amodol. Hefyd, mae gwahaniaeth rhwng profiadau diwylliannol sy'n rhoi pleser dros dro (e.e. yn seiliedig ar ddiwylliant poblogaidd) a'r rhai sy'n gwneud cyfraniad hirdymor drwy

effeithio ar synnwyr o bwrpas a nodau unigolion. Mae pwysau cymdeithasol a chyfryngau cymdeithasol a hysbysebu yn tueddu i hyrwyddo a dwyfoli'r enghraifft gyntaf.

7. Mae'r cwestiwn a ofynnir (uchod) yn rhagdybio bod cymryd rhan mewn diwylliant – mewn unrhyw ffurf – yn cael ei groesawu gan bobl sy'n byw mewn tlodi. Er bod profiadau diwylliannol yn cyfoethogi bywydau, yn y tymor byr a hirdymor, gellir dadlau bod gan nifer o bobl sy'n byw mewn tlodi flaenoriaethau eraill i fynd i'r afael â nhw'n gyntaf. Mae'r rhain fel arfer wedi'u ffocysu ar gael digon o incwm ar gyfer hanfodion - lloches sylfaenol, gwres, dillad a bwyd. Ni ddylid tybio bod mynediad at 'ddiwylliant' o ddiddordeb, neu o fantais uniongyrchol iddynt o ystyried eu hamgylchiadau. Yn hierarchaeth anghenion enwog Maslow, anghenion seicolegol sy'n dod gyntaf. Dim ond ar dop yr hierarchaeth y nodir 'gweithgareddau creadigol' - fel rhan o 'hunan-wireddiad'. Hyd yn oed pe byddai mwy o incwm ar gael, mae'n debygol y byddai dyheadau dechreuol ar gyfer safonau gwell o fyw, yn hytrach na mynediad at weithgareddau diwylliannol.
8. Fodd bynnag, i blant a theuluoedd mewn tlodi mae posibilrwydd bod eu rhagolwg a chyfleoedd mewn bywyd wedi ei gyfyngu os, oherwydd incwm aelwyd isel, na chânt gyfle i brofi ystod o weithgareddau diwylliannol – e.e. chwaraeon, cerddoriaeth a chelfyddydau.
9. Yn yr un modd, gall y sefyllfa fod yn dra gwahanol i oedolion sydd, am amryw o resymau yn dioddef o amgáu cymdeithasol yn hytrach na thlodi. *Gall* eu harwahanrwydd fod yn gysylltiedig ag incwm isel, ond hefyd, oherwydd ystod o ffactorau eraill megis anabledau, oedran, lleoliad daearyddol, mynediad at gludiant ayyb. Gall ddisgwyliaid a dyheadau'r rhai sy'n teimlo'n eu bod yn cael eu hamgáu'n gymdeithasol, felly, fod yn wahanol i'r rhai sy'n byw mewn tlodi. Efallai eu bod nhw *eisiau* cymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithgareddau ond heb y modd o fynd yno a dod adref.
10. Rhaid cadw'r pwyntiau hyn mewn cof wrth ystyried os yw Llywodraeth Cymru wedi gallu gwella mynediad i, a chyfranogiad mewn, diwylliant. Maent yn codi cwestiynau sylfaenol am rôl y llywodraeth o ran nodi gweithgareddau diwylliannol y teimla sy'n fanteisiol ac yn annog cyfranogiad – ac i ba raddau y mae'n fater i unigolion benderfynu dros eu hunain. Y mater allweddol yma yw cyfle. Ni ddylai unigolion gael eu heithrio oherwydd tlodi. Dylent gael cyfleoedd/mynediad i brofi gweithgareddau

diwylliannol ac yna penderfynu os (a phryd) maent mewn safle i gyfranogi ymhellach.

11. Yn ogystal â'r prosiect CYFUNO, mae nifer o esiamplau lle mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i annog a hwyluso cyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol. Gan weithio mewn rhai achosion, gydag awdurdodau lleol a Pharciau Cenedlaethol sy'n cynnwys:
  - Gwasanaeth llyfrgell ddigidol gyda mynediad am ddim i unrhyw un sy'n aelod o'u gwasanaeth llyfrgell leol ac yn berchen cerdyn llyfrgell (<https://llyfrgelloedd.cymru/my-digital-library/>)
  - Y penderfyniad i ganiatáu mynediad am ddim i amgueddfeydd<sup>1</sup>
  - Cefnogaeth ar gyfer y fenter 'Kids in Museums' mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf tra'u bod yn gweithredu
  - Roedd mentrau Cymunedau'n Gyntaf eraill a oedd yn annog gweithgarwch diwylliannol
  - Cefnogaeth i'r Parc Cenedlaethol ar gyfer cynlluniau gwella mynediad i'r anabl ac ar gyfer cynlluniau mentora i alluogi amrywiaeth ymysg aelodau Parciau Cenedlaethol. (Roedd prosiect cysylltiedig wedi'i ariannu gan y Loteri – sydd wedi dod i ben erbyn hyn – hefyd yn annog cyfranogiad cymunedau pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig gydag Awdurdodau Parciau Cenedlaethol).

**Pa mor effeithiol y mae ymdrechion cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru (sef Cyngor y Celfyddydau, yr Amgueddfa Genedlaethol, y Llyfrgell Genedlaethol a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru) a llywodraeth leol wedi bod i ddefnyddio diwylliant i drechu tlodi?**

12. Gellir dadlau bod mwyafrif o'r hyn mae llywodraeth leol yn ei wneud, wedi ei anelu at sicrhau bod preswylwyr yn mwynhau safon byw da. Mae bron yn anochel, bod hynny'n golygu darparu cymorth i'r rhai sydd mewn angen gwirioneddol a cheisio mynd i'r afael ag anghydraddoldeb (un o saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol). Mae anghydraddoldeb a thlodi yn gyberthnasol.
13. Roedd astudiaeth LSE, *Double Trouble*, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2017<sup>2</sup> yn edrych ar y berthynas agos rhwng tlodi ac anghydraddoldeb yn y DU. Darganfuwyd y gellir mynd i'r afael ag anghydraddoldebau gofodol mewn deilliannau, yn cynnwys

---


<sup>1</sup> Ac eithrio parcio car, a rhai digwyddiadau ac arddangosfeydd arbennig.

<sup>2</sup> <https://oxfamlibrary.openrepository.com/bitstream/handle/10546/620373/rr-double-trouble-inequality-poverty-uk-091117-en.pdf;jsessionid=58CD82E2750788C5FE01A299A3ACDAB0?sequence=1>

tlodi, drwy bolisiau cymdeithasol sydd yn seiliedig ar bobl neu yn seiliedig ar leoedd (neu gyfuniad o'r ddau). Gall ymyraethau diwylliannol fod yn seiliedig ar bobl (e.e. trwy addysg a thrwy amlygu unigolion at weithgareddau diwylliannol) ac yn seiliedig ar leoedd (e.e. darparu adeiladau a chyfleusterau sy'n cynnal gweithgareddau diwylliannol a threftadaeth; trwy saerniaeth a dyluniad). Gallent gyfrannu tuag at yr ymdrechion ehangach i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, ac yn eu tro, tlodi (nid tlodi ariannol yn unig ond tlodi o ran uchelgais).

14. Mae Awdurdodau Lleol wedi cydnabod ers tro y gall cefnogaeth ar gyfer gweithgarwch diwylliannol gael effaith gadarnhaol ar bobl a llefydd, gan helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a thlodi. Mae cefnogaeth ar gyfer addysg i oedolion, y celfyddydau, cerddoriaeth a chwaraeon wedi chwarae rhan amlwg ymysg yr ystod o wasanaethau a ddarperir gan lywodraeth leol dros y blynyddoedd.
15. Fodd bynnag, yn anffodus, mae blynyddoedd olynol o galedi ariannol wedi ei gwneud hi'n gynyddol anodd i awdurdodau lleol gefnogi gweithgareddau diwylliannol. Mae'r ffigwr isod yn dangos bod Llyfrgelloedd wedi profi toriadau o 35% ers 2009/10 tra bod diwylliant ac adloniant wedi profi toriadau o 42%. I gymhlethu'r mater, mae hi wedi bod yn anodd atynnu cyllid Loteri i gefnogi'r gweithgareddau a gynhelir gan gyrff cyhoeddus. Yn aml, ystyrir hwy fel cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol ac felly ni ystyrir hwy'n addas ar gyfer cefnogaeth gan y Loteri. Mae nifer o awdurdodau yn darparu ystod o wasanaethau drwy gyflenwyr allanol (e.e. canolfannau hamdden), gydag ymddiriedolaethau a grwpiau cymunedol eraill yn aml mewn safle gwell i gael mynediad at gyllid sydd ei angen i gadw'r gwasanaethau'n fyw.


## Newid gwariant gwasanaethau ers 2009-10



## Pa effaith mae rhaglen Cyfuno Llywodraeth Cymru wedi'i chael ar ddefnyddio diwylliant i fynd i'r afael â thlodi?

16. Mae'r rhaglen Cyfuno wedi ei ddarparu mewn nifer o ardaloedd awdurdod lleol, yn gysylltiedig â'r rhaglen Cymunedau'n Gyntaf (CG) sydd wedi dod i ben erbyn hyn, ac yn canolbwyntio ar rannau mwyaf difreintiedig Cymru. Ehangodd y rhaglen o chwe ardal yn cynnwys 15 clwstwr CG yn ei blwyddyn gyntaf (2015/16) i ddeg ardal yn cynnwys 25 clwstwr yn ei hail flwyddyn. Ymhob ardal, sefydlwyd Partneriaeth Cyfuno yn cynnwys cyrff lleol perthnasol.
17. Mae gweithgareddau wedi cynnwys rhaglenni treftadaeth ddigidol, cynlluniau i annog pobl ifanc a'u teuluoedd i ymweld ag amgueddfeydd, gwirfoddoli a phrofiad gwaith a phrosiectau yn defnyddio treftadaeth i annog ffordd o fyw iachach.
18. Cafodd asesiad o'r deilliannau ar draws y Partneriaethau Cyfuno ym mlwyddyn gyntaf y cyfnod peilot ei rwystro gan ddiffyg gwybodaeth fonitro cyson, cadarn a chymharol. Darganfu'r adolygiad o ail flwyddyn y Rhaglen a gyflawnwyd gan GSR ym mis Awst 2017 bod: *"unigolion sy'n wynebu tlodi yn eu cymunedau'n manteisio mwy ar weithgareddau diwylliannol yn sgil Partneriaethau Cyfuno. At hynny, teimlai'r mwyafrif o'r ymatebwyr mai un o ganlyniadau cymryd rhan mewn Partneriaeth Cyfuno oedd bod eu sefydliad yn dechrau deall yn well y rhan y gall diwylliant ei chwarae'n trechu tlodi"* (tud. 2).
19. Mae hyn yn awgrymu llwyddiant y rhaglen o weithio tuag at ei nodau. Fodd bynnag, mae'r siart isod o'r adroddiad GSR yn dangos bod 42 o'r sefydliadau a gymerodd ran yn nodi 'cynnwys pobl sy'n profi tlodi mewn gweithgareddau diwylliannol' fel y drydedd her fwyaf sylweddol yr oeddent yn ei wynebu. Mae hyn yn adlewyrchu'r sylwadau ym mharagraff 7 uchod – efallai nad yw cael mynediad at weithgareddau diwylliannol yn brif flaenoriaeth i'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan dlodi ac anfantais.

**Siart 1.5:** I ba raddau ydych chi wedi gweld y ffactorau canlynol yn heriol, o ystyried cyfranogiad eich sefydliad yn y Bartneriaeth Cyfuno. (Mae'r siart yma yn cynnwys ymatebion o weithiau, y rhan fwyaf o'r amsera bob amser).



20. Derbyniwyd adborth gan un o'r ardaloedd ynghlwm yn y rhaglen fel a ganlyn:

- *Mae'r gwasanaethau a'r cyfleusterau a gynigir gan bartneriaid diwylliannol yn y rhwydwaith cyfuno wedi eu defnyddio'n bennaf fel arf ymgysylltu gan y Tîm Cymunedau'n Gyntaf yn flaenorol, a'r Tîm Gwaddol erbyn hyn.*
- *Roedd y Rhaglen wedi ein caniatáu i godi ymwybyddiaeth yn y sector celfyddydau a diwylliannol am y rhwystrau y mae rhai pobl yn eu profi wrth fyw mewn tlodi; o fynediad daearyddol i fynediad oherwydd hyder, yn hytrach na'r rhwystr ariannol yn unig. Rydym wedi cydweithio i ysbrydoli'r rhai sy'n byw mewn tlodi i ddatblygu sgiliau allweddol bywyd wrth fwynhau gweithgareddau addysgol ac ysgogol.*
- *Roedd y rhaglen wedi rhoi mynediad i aelodau'r gymuned i sefydliadau a lleoliadau diwylliannol na fyddent wedi ymgysylltu â hwy fel arall. Fel esiampl, mae'r Cynllun Noson Allan wedi ei ddatblygu'n lleol gyda grwpiau ers dechreuad Cyfuno hyd at heddiw. Mae hyn wedi annog pobl i ddefnyddio a datblygu sgiliau fel: cynllunio prosiect, gwerthu, creadigrwydd, sgiliau*

*rheolaeth ariannol, marchnata ac ati. Rydym yn falch o nodi parhad y gwaith hwn ers i'r cysylltiad dechreuol ei sefydlu, gyda sioeau wedi eu trefnu mewn dwy gymuned ym mis Rhagfyr fel rhan o ddathliadau'r Nadolig*

- *Mae cyfleoedd wedi eu hanfon gan bartneriaid diwylliannol ar gyfer lleoliadau gwirfoddol a gwaith am dâl posib hefyd. Mae'r rhain wedi eu hanfon ymlaen i'r tîm cefnogi cyflogaeth (Cymunedau am Waith a Chymunedau am Waith+) fel cyfleoedd posib ar gyfer cyfranogwyr sy'n chwilio am waith. Rydym ni'n monitro cynnydd er mwyn gwerthuso os ydynt yn arwain at unrhyw ganlyniadau o gyflogaeth.*

## **Pa mor effeithiol mae rhaglen arloeswyr Cyfuno wedi bod wrth ysgogi cydweithredu lleol?**

21. Darganfu'r adroddiad GSR bod sefydliadau diwylliannol yn nodi mwy o gydweithio fel un o brif fanteision y rhaglen. Daeth â sefydliadau diwylliannol, celfyddydol a threftadaeth ynghyd â'r awdurdod lleol, clystyrau CG, grwpiau cymunedol lleol a chyrrff eraill sy'n gweithio o fewn bob ardal. Gwnaethon nhw ddylunio, cyllido a darparu ystod o weithgareddau a phrosiectau ar y cyd.
22. Roedd adborth ar y mater hwn gan un o'r ardaloedd ynghlwm y rhaglen fel a ganlyn:
  - *Mae'r rhaglen Cyfuno wedi ariannu swydd cyd-swyddog [ar draws dau awdurdod lleol] i gydlynu rhwydweithiau celfyddydol, diwylliannol a sefydliadau cymunedol*
  - *Mae ymrwymiad â'r rhwydwaith Cyfuno wedi ein darparu â chyfleoedd i sicrhau bod gwasanaethau newydd ar gael i gymunedau na fyddem ni'n gwybod amdanynt fel arall.*
  - *Gan fod nifer o'r partneriaid diwylliannol yn darparu cyfleoedd gwirfoddoli ffurfiol ar gyfer aelodau'r gymuned, mae ein staff wedi elwa o hyfforddiant a chynghor ar gyfer cefnogi gwirfoddolwyr yn ein rhaglenni, er enghraifft y rhwydwaith Dyddiau Gwener Digidol*



- *O'n safbwynt ni, prif lwyddiant y rhaglen yw'r cysylltiadau a ddatblygwyd yn lleol o ganlyniad i'r rhwydwaith. Mae'r cysylltiadau hyn wedi cyfrannu tuag at ddatblygu a darparu prosiectau mewn cymunedau tu allan i gylch gwaith adroddi'r rhwydwaith.*
-